# y dinesydd

Ebrill/Mai 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 227


# MENTRO DROS YR IAITH

Mae gennym Fenter Iaith yma yng Nghaerdydd erbyn hyn ac mae hynny'n swyddogol! Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Sir yn ddiweddar, gydag yn agos i gant yn bresennol, cytunwyd i fwrw ati i sefydlu 'Menter Caerdydd' i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein prifddinas.

Rhaid cropian cyn cerdded, a bu pwyllgor llywio wrthi'n paratoi ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus gan gasglu gwybodaeth am fentrau eraill a cheisio cysylltu â gwahanol fudiadau yng Nghaerdydd i fesur eu hymateb i'r syniad. Bydd y plentyn arbennig yma yn cymryd ei gamau cyntaf gyda Chyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd yr Iaith a Menter Taf-Elái yn fodlon estyn llaw iddo. Ond roedd awgrym hefyd yn y cyfarfod mai unwaith y byddai ar ei brifiant yna disgwylid iddo ymdopi ei hun.

Cytunodd y rhai a fynychodd y cyfarfod cyhoeddus i dderbyn bras gyfansoddiad ar gyfer y Fenter oedd wedi ei seilio ar un Menter Taf-Elái ac etholwyd swyddogion ac aelodau i'r pwyllgor rheoli. Tasg y pwyllgor fydd cytuno ar restr o flaenoriaethau i'r Fenter newydd, chwilio am gyllid ac adnoddau eraill, ennyn rhagor o gefnogaeth a chynnal cyfarfodydd pellach gyda Bwrdd yr Iaith, Cyngor y Ddinas a chyrff eraill.

Y prif nod fydd ceisio hybu gweithgareddau o bob math drwy gyfrwng y Gymraeg ar batrwm y mentrau eraill sydd wedi eu sefydlu. Mae bywyd Cymraeg y ddinas eisoes yn fwrlwm o brysurdeb, fel y tystia tudalennau'r *Dinesydd* bob mis. Mae'r Urdd er enghraifft yn brysur yn cynllunio i ehangu'n sylweddol ar eu darpariaeth i blant a phobl ifainc Caerdydd a'r cylch ac mae twf yr ysgolion Cymraeg, y cylchoedd meithrin a'r dosbarthiadau dysgwyr yn parhau yn ddiball.

Fe all y Fenter gobeithio estyn cymorth i'r datblygiadau hyn trwy gydlynu, rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i weithgareddau Cymraeg, ceisio llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a helpu'r Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr i glosio at ei gilydd.

Mae'n werth mentro weithiau, felly pob hwyl i'r Fenter. Fe all y plentyn yma o'i gamau simsan cyntaf dyfu'n gawr ymhlith Mentrau Cymru - ond bydd yn rhaid iddo gael digon o borthiant a chefnogaeth!

# Yn ôl i Dyddewi


Ar 22 Hydref 1939 cafwyd gwasanaeth hanesyddol yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. Roedd dyn busnes amlwg yn y ddinas, Arthur McTaggart-Short, wedi penderfynu cyflwyno baner hardd newydd i Adran Ysgol Bechgyn Cathays o'r Urdd (Adran yr Arglwydd Faer) a chysegrwyd y faner ar allor yr eglwys gan y Canon R.M. Rosser cyn iddi gael ei throsglwyddo i'w chludydd, y llanc ifanc, Maxwell Evans.

Y gŵr oedd y tu cefn i hyn i gyd oedd arweinydd yr adran, W.C. Elvet Thomas. Ef wedyn a gafodd y syniad o fynd â'r faner i'w chysegru ar allor pob un o eglwysi cadeiriol Cymru ac o fewn deunaw mis roedd ei weledigaeth wedi ei gwireddu.

Yn Ebrill 1940 cerddodd Elvet Thomas, Roy Saunders, Alan Greedy a Maxwell Evans bob cam i Dyddewi yn enw Urdd Gobaith Cymru a chynnal gwasanaeth arbennig yno ar 14 Ebrill. Dilynwyd hyn gan wasanaethau yn Aberhonddu ar 2 Hydref 1940 a Llandaf ar 14 Rhagfyr, cyn y daith fawr pan gerddodd Elvet Thomas a Maxwell Evans bob cam i Lanelwy a Bangor gan gynnal gwasanaethau yno ar 21 a 25 Ebrill 1941.

Y bwriad yn awr yw mynd â'r faner yn ôl i fangre'r bererindod gyntaf a'i gosod i fyny yno, a'r un pryd gofio dyled enfawr ein cenedl i Elvet Thomas. Trefnwyd gyda'r deon, y Tra Pharchedig Wyn Evans, i gynnal gwasanaeth yno ddydd Sadwrn, 10 Mai, am hanner awr wedi un. Gwneir pob ymdrech i gysylltu â chynifer ag sy'n bosib o'r hen bererinion ac mae Max, a gafodd y fraint o gyflwyno'r faner ym mhob un o'r gwasanaethau arbennig, yn gobeithio cael bod yno i gario'r faner am y tro olaf.

Gwahoddir unrhyw un a hoffai fwy o fanylion i gysylltu ag ef yn 86 Heol Redlands, Penarth, Bro Morgannwg CF64 2WL. Rhif ffôn: 01222 701963



Y pedwar pererin, Elvet Thomas, Maxwell Evans, Alan Greedy a Roy Saunders wrth borth gogleddol Eglwys Gadeiriol Llandaf

Cofiwch am

**Gyfarfod Blynyddol y Dinesydd**

**nos Fercher, 21 Mai, am 7.30 p.m.**

yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.

Dewch yn llu i gefnogi'ch papur bro!

# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai 1997, Rhif 227.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Mehefin at un o'r canlynol erbyn 16 Mai:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Mr Gareth Kiff (Ffôn: 486469): Gweithgareddau Dysgwyr.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..............................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................


.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..............................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 159** **Ebrill/Mai 1997**




**AR DRAWS**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Un o wyliau'r Eglwys yn cyrraedd. | (6) |
| 5. | Bys y lord yn busnesa ym materion yr enaid. | (8) |
| 9. | Offerynwyr yn cyd-weithio. | (10) |
| 10. | Does fawr o afrwyddineb yn hyn o beth. | (4) |
| 11. | Rhoi cig oer G.D. ar fachyn. | (8) |
| 12. | Newyddion da gan bedwar. | (6) |
| 13. | Mangre hyfryd ar ôl ei thrin. | (4) |
| 15. | Gair sydd yn glod ar y dyn cymwynasgar. | (8) |
| 18. | Meichiau. | (8) |
| 19. | Oriau olaf y dwthwn hwn. | (4) |
| 21. | Cangen fach. | (6) |
| 23. | Ai llef denau a glywn? | (8) |
| 25. | Mae modd clywed hwn â'r trwyn. | (4) |
| 26. | Trefniadau sy'n dod i agosáu. | (10) |
| 27. | Rhannau trefnus o'r cyfan. | (10) |
| 28. | Traddodi araith. | (6) |

**I LAWR**

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Y byd yn gyfan. | (5) |
| 3. | Y mae yn cenfigennu o weld rhywun yn rhoi ei sedd gudd i arall. | (9) |
| 4. | Ebill mawr y saer. | (6) |
| 5. | Pwysau annymunol ar fan tyner. | (2,5,2,6) |
| 6. | Cerrig coffadwriaeth. | (8) |
| 7. | Pa le? | (5) |
| 8. | '. ... . .... sy yn y byd' (Glan Geirionydd). | (1,3,1,4) |
| 14. | Barbariaid difoes. | (9) |
| 16. | Yn gwneud camwri. | (9) |
| 17. | Haen o fraster. | (8) |
| 20. | Y mae yn eiriol. | (6) |
| 22. | Hynt. | (5) |
| 24. | I waered. | (1,4) |

**Cystadleuaeth Rhif 158**
Daeth 15 ymgais i law. Yr oedd gwallau bychain yn saith ohonynt. Yr enw a dynnwyd i dderbyn tocyn llyfrau oedd Hilda M. Ethall, 53 Heol Porthamal, Rhiwbina. Y saith ymgais gywir arall oedd: Maurine Hurley, Llandaf; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Margaret Jones, Rhiwbina; Rhiain Phillips, Radur; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Y Bont-faen; a Buddug Thomas, Llandre, Aberystwyth.

**Cystadleuaeth Rhif 159**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd: 'Croesair Ap Lewsyn', 13 Rannock Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 19 Mai os gwelwch yn dda.

# Apêl Eisteddfodol

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Islwyn, yn prysur agosáu erbyn hyn, a phrinder llety o hyd ar gyfer cystadleuwyr, yn enwedig ar ddechrau'r wythnos. Pe gallai rhai o ddarllenwyr *Y Dinesydd* gynorthwyo trwy gynnig llety, byddai Mrs Rosalind Williams yn eithriadol falch o glywed oddi wrthynt. Rhif ei ffôn yw 01222-751091.

Go brin bod neb ohonoch heb glywed bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Fro Ogwr yn 1998. Tasg yr Is-bwyllgor Llety a Chroeso yw sicrhau llety neu dŷ-ar-osod i'r holl ymwelwyr fydd yn dymuno dod yma. Os hoffai unrhyw un gynnig llety neu dŷ anfonwch air neu rhowch ganiad i Joy Waters yn Swyddfa'r Eisteddfod, Llawr 4, Tŷ Bracla, Heol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1BZ (Ffôn: 01656 659898).

## Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro

Mr Glyn James, Rhondda, oedd y gwestai yng nghyfarfod mis Chwefror. Cafwyd noson hynod bleserus yn gwrando arno'n adrodd ei hanes yn ardal Llangrannog yn ystod ei fachgendod. Soniodd iddo weld, ar draws bae Aberteifi, Benyberth yn llosgi yn 1936. Gan iddo ddod i derfyn ei sgwrs ac yntau'n bedair ar ddeg oed, fe'i gwahoddir yn ôl i barhau â'i atgofion.

## Y Cylch Llyfryddol


Un o ddiddordebau Owen John Thomas, dirprwy brifathro Ysgol Gynradd Gladstone yw hanes Caerdydd a daeth i gyfarfod diweddar o'r Cylch i gynnig ateb i'r cwestiwn, 'Pa mor Gymraeg oedd Caerdydd rhwng 1750 ac 1850?' Cyfeiriodd at y ffaith mai'r gred gyffredinol yw mai lle Seisnigaidd fu Caerdydd o tua 1400 ymlaen ond mynnodd y siaradwr mai camgymeriad yw cred o'r fath. Soniodd am gyfenwau pobl a ddaeth yn Gymreiciach o genhedlaeth i genhedlaeth tan ddaeth nifer o Loegr yma i weithio. Dengys enwau lleoedd Saesneg 'gefndir' Cymraeg. Tu ôl i dafarn y King's Head roedd Cae'r Brenin a cheir Cae'r Efail ar fapiau ystad a degwm cyn codi'r Dusty Forge. Hen enw Four Acres oedd Pedair Erw Llywelyn - mae'n rhaid felly bod pobl yn defnyddio'r Gymraeg. Ceir tystiolaeth o ddefnyddio'r iaith hefyd yng nghofnodion achosion enllib yn y llys ac yng nghofnodion eglwysi'r plwyf - y cyfan yn dangos bod y Gymraeg yn gyffredin ac yn bwysig ym mywyd Caerdydd hyd at ganol y ganrif ddiwethaf. Sgwrs ddiddorol iawn, a diolch i Owen John Thomas am chwalu ambell goel ffug.

*D. Gwyn Jones*

**Sefydlwyd** cronfeydd yn ddiweddar i goffáu dau a gyfrannodd yn sylweddol dros gyfnod helaeth i fywyd a diwylliant Cymru. Pe baech am gyfrannu i Gronfa Goffa Wilbert Lloyd Roberts, dylech gysylltu â Dafydd Thomas, Theatr Gwynedd, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd LL57 2TL. Y cyswllt ar gyfer cyfraniadau i Gronfa Goffa Dafydd Orwig yw Alun Ogwen Jones, Tegfan, Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DR.

**Da deall** bod siopau Disney yng Nghymru wedi mabwysiadu polisi Cymraeg yn dilyn trafodaethau â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Mae'r polisi yn cynnwys darparu arwyddion a derbynebau dwyieithog. Mae tri o staff siop Disney yng Nghaerdydd yn medru'r Gymraeg.

**DATRYSIAD CROESAIR MAWRTH**



## Calendr y Dinesydd

**Sadwrn, 17 Mai**
Ysgol Undydd ar y cyd rhwng Cymdeithas Bob Owen ac Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, rhwng 10.00 a 5.15. Yn cynnwys cyflwyniadau i gasgliadau'r Amgueddfa Werin a darlithoedd ar Ffransis G. Payne gan Trefor M. Owen ac ar Gadrawd gan Brynley F. Roberts. Manylion pellach: Beth Thomas (01222-569441).

**Sul, 18 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Trip i'r Amgueddfa Genedlaethol gyda thywysydd. Manylion pellach gan Rhys Morris (01222-666120) neu Gwen Jones (01222-563914).

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynyddol, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach am 7.30 p.m. I annerch: Gwenda Morgan.

**Mercher, 21 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Dadl ar y testun 'Lle y wraig yw'r cartref?'

**Mercher, 21 Mai**
**PWYSIG! PWYSIG! PWYSIG!**
**Cyfarfod Blynyddol y Dinesydd am 7.30 p.m. yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina**

**Sadwrn, 31 Mai**
'Y Ffilm Gymraeg Ddiweddar.' Cwrs sy'n rhoi cyfle i wylio a thrafod chwe ffilm Gymraeg. Tiwtor: Philip Wyn Jones. Cynhelir y cwrs gan Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, 38 Park Place, rhwng 10.30 a.m. a 3.00 p.m. Dyddiad cyfarfodydd eraill y cwrs yw: 14 Mehefin, 28 Mehefin a 12 Gorffennaf. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery (01222-874831).

**Llun, 2 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith am 6.30 p.m. Manylion pellach: 01222-620487.

**Mercher, 4 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Cwis yng nghwmni Mair ac Idwal Hughes.

**Iau, 12 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Pererindota drwy'r Emynau' yng nghwmni Rhys ac Eulonwy Jones, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth am 7.30 p.m.

**Iau, 12 Mehefin**
Clwb Gwawr Caerdydd: Trip ar y 'Waverley' o harbwr Penarth. Manylion gan Manon Wyn Rhys (01222-216503).

**Mercher, 18 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Sgwrs gan Valmai Evans.

**Iau, 26 Mehefin**
'Morys y Gwynt ac Ifan y Glaw.' Cynhyrchiad i blant 4-8 oed gan Gwmni Theatr Arad Goch yn arena Theatr Sherman am 10.00 ac 1.00. Tocynnau: 01222-230451.

**Mercher, 2 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Pleserdaith. Manylion pellach: 01222-495980.

**Llun, 7 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pen Tymor, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach am 7.30 p.m

**Iau, 10 Gorffennaf**
Clwb Gwawr Caerdydd: 'Ar Feic a Phicnic' yn Fferm y Fforest (neu'r Radyr Arms, os bydd yn bwrw). Manylion gan Manon Wyn Rhys (01222-216503).

**Mercher, 16 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Cyfarfod Blynyddol a the mefus.

**26 Gorffennaf-1 Awst**
Cwrs Cymraeg San Dunwyd i ddysgwyr o bob lefel, dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery (01222-874831).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Cynhaliwyd** arddangosfa hynod o lwyddiannus o dros gant o ddarluniau gan yr arlunydd Kyffin Williams yn Oriel Albany, Caerdydd ym mis Mawrth a gwerthwyd bron y cyfan o'r darluniau mewn byr amser.

**Cadeirydd** newydd Bwrdd Swyddfa'r Post Cymru a'r Gororau yw Lewis Evans o Dregaron gynt a chyn-Gyfarwyddwr Rheoli Girobank plc. Cyn ymuno â'r Girobank bu Lewis Evans yn byw yn Rhiwbina ac yn Gadeirydd y Cylch Meithrin! Croeso'n ôl i Gaerdydd iddo ef a'i deulu a llongyfarchiadau iddo ar ei swydd newydd.

## Ennill Gwobr Bafta

Llongyfarchion i Geraint Rees, Parc y Rhath, ar ennill gwobr bwysicaf Bafta mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Daeth y wobr iddo am ei gyfraniad mawr i fyd teledu. Mae wedi bod yn gweithio yn y cyfrwng hwn am dros 35 o flynyddoedd. Ymunodd â TWW ddechrau'r 60au fel cynhyrchydd/cyfarwyddwr ac ymuno â HTV ar ddiwedd y 60au. Ef sy'n gyfrifol am y rhaglen *Cefn Gwlad* sydd yn gyson ymhlith rhaglenni mwyaf poblogaidd y sianel.



Geraint Rees a gwobr Bafta. Llun HTV

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Derek Griffiths, y plant, Adèle, Suzanne ac Olwen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Anne, Tenby Close, Dinas Powys yn 58 oed. Bydd y golled ar ei hôl yn fawr

Cydymdeimlwn hefyd â Margaret Morgan, Plasturton Avenue, Pontcanna ar farw'i mam yn Ysbyty Cymuned Ystradgynlais yn ddiweddar.

Mae ein meddyliau gyda theulu Alun Rowlands, Llandaf a fu farw ddydd Llun y Pasg yn Ysbyty Llandochau. Fe fu'n flaenor ffyddlon am flynyddoedd yng Nghapel y Crwys. Bu gwasanaeth coffa iddo yng Nghapel y Crwys ddechrau Ebrill.

Cydymdeimlwn hefyd â Cath Edwards, Radur ar golli ei llysfam a fu farw yn Ysbyty Llandochau yn Ebrill. Hanai o Gwmafan ger Port Talbot.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deuluoedd Mr John Jones (*Pentyrch St, Cathays*), Mr Ray Harries (*Treganna*), a Mr Ieuan Glynne Jones (*Pen-y-lan*), a fu farw'n ddiweddar.

**Bedyddiwyd** Rhodri Elis, mab bach Nia ac Alan Bannister, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), a brawd bach Sophie, yn Eglwys y Crwys yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r teulu.

## Gwilym yn siaradwr gwadd

Gwilym Roberts oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc yn Ebrill. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am Phillips Brazil. Am ragor o fanylion am y Cylch, ffoniwch 01222 753625.

## Clwb Ifor Bach

Bu Clwb Ifor Bach yn brysur iawn yn ddiweddar a chafwyd ymweliadau gan nifer o grwpiau gan gynnwys Sobin a'r Smaeliaid, Brychan Llŷr a'r Strumdingars, Y Strabb ac Iwcs a Doyle.

## Llyfrgellydd wedi ymddeol

Mae Ieuan Edwards wedi ymddeol yn gynnar o'i swydd fel llyfrgellydd y ddinas. Mae Mr Edwards yn byw yng Nghaerffili ac yn hanu o ardal Ysbyty Ystwyth, Ceredigion.

## Llwyddiant drama ar daith

Cafodd *Bonansa* gan y dramodydd o Gaerdydd, Meic Povey, daith lwyddiannus iawn yn ddiweddar ac yn ôl Elinor Thomas, y Swyddog Marchnata, chwaraeodd nifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* ran flaenllaw yn y llwyddiant hwnnw trwy ddosbarthu taflenni ac ati.

Mae Elinor Thomas am ddiolch i bawb trwy'r *Dinesydd* am y llwyddiant hwn. Mae'r *Dinesydd* yn ei dro yn hapus bod cwmni sydd â'i wreiddiau yn y ddinas yn gwneud mor dda. Mae graen bob amser ar ei gynyrchiadau.

## Llongyfarchion...

I Seimon a Caroline Brown ar enedigaeth gefeilliaid, sef Thomas Rhys a Cerys Ann.

I Teleri Evans Aberystwyth gynt ar ei dyweddïad â Glyn Jones, Capel Bangor gynt.

I Tanni Grey am ddod yn ail yng nghystadleuaeth cadair olwynion i ferched yn ras farathon Llundain eleni.

I Ffion Jenkins, Rhiwbina, ar ei dyweddiad â William Hague.

I Dyfrig John, a fu hyd yn ddiweddar yn bennaeth Banc y Midland yng Nghymru, ar gael ei benodi'n brif weithredwr Cwmni HSBC ym Mombay yn yr India.

I'r Athro Haydn Ellis o Brifysgol Cymru, Caerdydd, ar gael i benodi i gynrychioli Cymru ar gorff newydd a fydd yn rheoli ansawdd addysg uwch.

## *Y Tair Chwaer*

Un o'r actoresau yn y gyfres *Tair Chwaer* a ymddangosodd yn ddiweddar ar S4C oedd Llio Millward, gynt o Aberystwyth ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Mae'n ferch i Mr Tedi Millward, y cyn-ddarlithydd Cymraeg yn Aberystwyth a ddysgodd Gymraeg gan W.C. Elvet Thomas yn Ysgol Uwchradd Cathays.

## Poeth o'r Wasg

Yn ddiweddar ymddangosodd llyfr o'r enw *Dysgu Celf yng Nghymru* gan Alan Torjussen. Cafodd yr awdur ei fagu yn Rhiwbina a deil i fyw yno gyda'i wraig, Glynneth. Mae o dras Norwyaidd o ochr ei dad. Os carech gael copi o'r llyfr cynhwysfawr hwn, anfonwch at yr awdur yn 17 Heol Wen, Rhiwbina, Caerdydd CF4 6EG. Mae'n costio £45 ond yn werth pob ceiniog.

* * *

Un o draddodiadau Tŷ'r Cyffredin yw cyflwyno Cennin Pedr i Lefarydd y Tŷ ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Eleni dau o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Treganna, sef Danielle Wright a Rhidian Marc Evans, a ddewiswyd i'w cyflwyno. Fe'u gwelir yn y llun cyferbyn yn edrych ar draws afon Tafwys yng nghwmni'r Llefarydd, Betty Boothroyd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

### Eglwys y Crwys
Eleni cynhaliodd Eglwys y Crwys eu cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Dewi Sant nos Wener, 28 Chwefror, a Gwilym Roberts, Rhiwbina yn ŵr gwadd. Cadeiriwyd y noson gan Gareth Williams, Cadeirydd y Gymdeithas. Cafwyd datganiadau ar y delyn gan Elen McFadyen a chanodd Iona Jones nifer o alawon gwerin Cymreig.

### Ebeneser, Heol Siarl
Ddechrau'r flwyddyn yng nghwrdd y plant cyflwynwyd siec i Mrs Beth Charles, cynrychiolydd yr Ymchwil i Glefyd Parkinson, am £3573. Dyma oedd cyfanswm yr apêl a wnaed dros yr achos teilwng hwn yn 1996 ac yn ffrwyth llu o weithgareddau amrywiol a haelioni aelodau.

### Bethel, Rhiwbina
Bu farw Mrs Jenny Roberts, Sir David's Court, Treganna, yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Roedd yn 88 oed ac yn enedigol o Fargod. Bu'n byw yn Llanberis am flynyddoedd lawer cyn symud i Gaerdydd.

Mrs Roberts oedd aelod hynaf yr eglwys. Bu'n ffyddlon iawn i'r achos cyn i'w hiechyd ddirywio rai blynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlir yn fawr â'i merch a'i mab yng nghyfraith, Mair ac Arthur Jones, Sain Nicolas, a'i hwyres, Tracey, a gweddill y teulu. Bu'r angladd, ym mynwent Nant Peris ar ôl gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem, Llanberis.

### Pwyllgor Enfys Caerdydd a'r Fro
Cynhelir Gwasanaeth Cymun Bendigaid yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, yn y Gymraeg, yn ôl trefn Eglwysi Cyfamodol Enfys brynhawn Sul y cyfamod, sef 8 Mehefin am 3 o'r gloch y prynhawn.

Gwasanaethir gan y Parchg Aled Edwards gyda chymorth gweinidogion o'r eglwysi eraill a bydd pregeth gan y Parchg Martin Evans Jones (Cadeirydd, Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd). Bydd croeso i weinidogion ac aelodau holl eglwysi Caerdydd, Penarth a'r Fro i ddod atom i gydaddoli, a derbyn y cymun drwy y drefn gyfamodol.



### Dewi Sant a Dewi Sant




Daeth Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig Alwyn Rice Jones i weinyddu'r cymun deg yn Eglwys Dewi Sant ar 2 Mawrth. Roedd y lle'n llawn i'w groesawu a chafwyd neges fuddiol ganddo. Y gŵr gwadd yn swper y cynhaeaf rai dyddiau wedi hynny oedd y Parchedig Ddr Dewi Eirug Davies. Cawsom araith wir ddiddorol ganddo wrth iddo olrhain rhan o'i daith trwy fywyd, gyda sylw annwyl at Lanbryn-mair.

### Marw Esgob
Noswyl y Pasg bu farw y Gwir Barchedig Eric M. Roberts, cyn-Esgob Tyddewi, yn ei gartref ym Mhenarth. Bu'n Esgob Tyddewi am ddeng mlynedd hyd ei ymddeoliad yn 1981. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

### Cofio am Marged Evans, Penarth
Daeth yr englyn hwn i law i gofio am Mrs Marged Evans, gwraig y Parchedig Maxwell Evans, a fu farw rai wythnosau'n ôl.

Caed heth dros dir cyd-deithio. Heth hiraeth
Pan ddaeth awr ffarwelio,
Ac er ias heth oera'r gro
Daw'r heulwen wedi'r wylo.

### Bethel, Penarth
Cafodd aelodau Bethel, Penarth y cyfle'n ddiweddar i longyfarch Mr Rowland a Mrs Moira Owen ar ddathlu eu priodas ruddem.

### Cyngerdd Mawreddog yn y Tabernacl
Cynhaliwyd cyngerdd gan gôr capel Tabernacl (Yr Ais) beth amser yn ôl. Cyflwynodd ddetholiad o *Mab y Dyn* (Arwel Hughes) ac eitemau amrywiol eraill. Cafwyd canu graenus gan y côr o dan arweiniad Euros Rhys Evans. Y cyfeilyddion oedd Marc John a Huw Thomas. Canwyd unawdau gan Timothy Richards, a gafodd lwyddiant mawr yn y brifwyl yn Llandeilo y llynedd, a chanwyd *Dwylo Dros y Môr* gan Aled John, un o ieuenctid y capel. Cymerwyd rhan hefyd gan barti cydadrodd y capel.

### Eisteddfod a Chymanfa
Cynhaliwyd Eisteddfod Hwyl a Sbri ym Methany Rhiwbina ddiwedd Mawrth. Roedd dan nawdd Cymdeithas Gymraeg yr ardal. Y beirniaid oedd Aled Gwyn a John Albert Evans ac enillwyd y gadair a'r goron gan Margaret Jones o Eglwys Dewi Sant. Trefnwyd y noson odidog hon gan Falmai Griffiths.

Yna, ym mis Ebrill, cynhaliwyd cymanfa ganu, eto dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg. Alun Guy oedd yr arweinydd gyda John Howells yn cyfeilio. Daeth tyrfa dda ynghyd a chafwyd canu ardderchog. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Meinwen Guy a chafwyd unawd sef *Gwynfyd* (Meirion Williams) gan Trystan Ffransis, un o ddisgyblion Ysgol Glantaf.

# YSGOL GLANTAF

## GŴYL GLANTAF 1997

**Adroddiad gan rai o ddisgyblion 6:1**

Roedd y gwreichion yn tasgu a'r tensiwn yn cynyddu wrth i ŵyl Glantaf nesáu. Roedd y cystadlu'n frwd a doedd neb yn fwy brwdfrydig nag arweinwyr yr ŵyl sef disgyblion 6:1 a'u hathrawon. Fel arwydd o hyn gwelwyd môr o wyrdd, coch, melyn a glas - lliwiau ein llysoedd - yn gorchuddio muriau'r ysgol.

Mae hi'n draddodiad bellach yng Nglantaf i gynnal gŵyl i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. A ble gwell i ddathlu ein Cymreictod nag yn Athrofa Chwaraeon Cenedlaethol Cymru yng Ngerddi Soffia! Yn ystod y tri diwrnod o fwynhau a chystadlu cafodd pawb gyfle i ddisgleirio ac i ddangos eu talentau.

Nos Fercher a phawb yn flinedig wedi diwrnod prysur o chwaraeon ac Eisteddfod cyhoeddwyd mai Illtud oedd ar y blaen, Teilo a Dewi wrth ei sodlau a Dyfrig yn llusgo ar ôl yn y pedwerydd safle.

Ddydd Iau, yn neuadd fawr yr Athrofa ail-ymgynullodd y llysoedd i barhau â'r frwydr ar y maes chwaraeon. Cafwyd amrywiaeth o gystadlu, o hoci a thenis bwrdd i rygbi a phêl-fasged. Siomwyd merched bach y blynyddoedd iau wrth i'r cyfle i weld eu hoff athrawon yn eu llodrau ddiflannu gyda gohirio gêm bêl-droed yr athrawon.

Dydd Gwener - uchafbwynt yr holl baratoi a dydd y farn i'r pedwar llys. Y cwestiwn ar wefusau pawb oedd pa lys fyddai ar y brig erbyn chwarter i bedwar - amser a ddangosai. Ymysg danteithion y dydd gwelwyd yr eitemau traddodiadol megis unawdau, deuawdau, corau a dawnsio gwerin. Yn ogystal â hyn diddanwyd y gynulleidfa gan berfformiadau o ganeuon Almaeneg a Ffrangeg. Drwy gydol y diwrnod cyhoeddwyd nifer o ganlyniadau'r gwaith cartref - cydnabyddiaeth i'r rhai hynny sy'n disgleirio'n academaidd.



*Cefn:* Thomas Lewis – enillydd Tlws yr Ysgol Isaf, Llŷr Dunsford – cydradd 3ydd am y Gadair, Gwenfair Michael – ail am y Gadair, Bethan Evans – cydradd 3ydd am y Gadair *Blaen:* Y Prifathro Huw Thomas, Gwenllian Griffiths – enillydd y Gadair - yn cael ei llongyfarch gan y beirniad Mrs Meinwen Guy. *Llun: Robin Griffith*

Daeth uchafbwynt yr ŵyl gyda seremoni'r Cadeirio. Bu disgwyl mawr a dyfalu pwy fyddai'n mynd â hi eleni. Cafwyd beirniadaeth deg a thrylwyr gan ein cyn-athrawes Gymraeg, Mrs Meinwen Guy. Bu dathlu mawr yng nghornel Illtud pan gyhoeddwyd mai 'Elena' sef Gwenllian Griffiths oedd prif lenor Gŵyl Glantaf 1997. Wedi cystadleuaeth agos o safon uchel, Gwenfair Michael a ddaeth yn ail a chyfartal drydydd oedd Bethan Evans a Llŷr Dunsford. Aeth y tlws Saesneg i Richard Lanagan o lys Teilo a llenor yr ysgol isaf oedd Tomos Lewis o lys Dyfrig.

Cystadleuaeth hwyliog oedd un y côr - gyda phob un aelod o'r ysgol yn rhoi o'i orau ond roedd perfformiad herfeiddiol Teilo yn llawn haeddu ennill.

Cyn canu 'Hen Wlad fy Nhadau' rhaid oedd datgelu'r canlyniadau holl bwysig. Teilo a enillodd dlws yr Eisteddfod am y gwaith llwyfan ond llys Dyfrig oedd yn dathlu nos Wener. Roeddent yn llawn haeddu'r tlws gwaith cartref, y tlws chwaraeon, y tlws dawnsio gwerin, ac wrth gwrs nhw enillodd darian yr ŵyl am y marciau uchaf.

Llongyfarchiadau i Dyfrig. Bu'r ŵyl yn llwyddiant ysgubol. Edrychwn ymlaen at 1998!




Enillydd y Tlws Saesneg, Richard Lanagan, yn cael ei longyfarch gan y Prifathro Huw Thomas *Llun: Robin Griffith*

* * * *

### Llwyddiannau Diweddar

**Nofio** – Cafodd Carys Osborne, Bethan Evans a Rhian Bennett o flwyddyn 7 eu dewis i nofio dros Gaerdydd yn Nantes yn ddiweddar.

**Sboncen** – Llongyfarchiadau i Carys Ogden o flwyddyn 8 ar gael ei dewis i chwarae sboncen dros Gymru.

**Chethams** – Llongyfarchiadau i Nicholas Jones, blwyddyn 11, ar ennill ysgoloriaeth i Ysgol Chethams, Manceinion. Bydd Nicholas yn treulio dwy flynedd yno yn derbyn hyfforddiant ar y fiola a'r clarinet.

**Nodyn i'r Dyddiadur- 20fed Pen-blwydd Glantaf**
Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Dewi Sant
Nos Sadwrn, 7 Tachwedd, 1998
Perfformiad o 'Elias' Mendelssohn

**Cofiwch HWYL HAF RHAG 1997!!**
Ledled Caerdydd a'r Fro: Y Barri, Penarth, Glantaf, Glan Elái, Bro Eirwg ac Ysgol Willows.
Manylion oddi wrth eich ysgolion.
Am ddim i rieni ar incwm isel, tâl bychan i'r lleill.

PERFFORMWYR, GWEITHWYR SESIYNAU ARBENNIG A SWYDDOGION - os am waith, cysylltwch ag Ethni Jones 01446 760383 am y ffurflenni pwrpasol.
**HWYL HAF RHAG 1997!!**

# 'LEPRA'

Yn ddiweddar cododd disgyblion blwyddyn 7 a 8 Ysgol Glantaf £4,120 tuag at gymdeithas 'Lepra'. Yn dilyn cyflwyniad gan Mrs Ruth Collishaw yn y gwasanaethau ar waith y gymdeithas a'i hymdrech i wella'r gwahanglwyfus yn Ne Affrica, aeth y disgyblion ati i ofyn am gyfraniadau. Yn dilyn hyn cafodd pawb gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy 'aerobig' yn ystod un awr ginio.

I wella person o'r afiechyd mae angen cwrs o dabledi sy'n costio £21 ac fel gwobr i'r rhai a gododd y swm yma cawsant y dewis rhwng crys 'T' neu gap pêl-fasged. Fel y gallwch ddychmygu roedd angen llawer o grysau 'T' a chapiau. Casglodd rhai disgyblion dros hanner can punt!

Llongyfarchiadau i Ysgol Glantaf am dorri record Prydain Fawr a'r Byd!!!





Ysgol Glantaf - Casglu arian i LEPRA *Cefn:* Thomas Haigh, Mrs Gaynor Jones
*Blaen:* Ameda Blades, Mrs Ruth Collishaw (Lepra), Antonia Kemble, Carys Holland
*Llun: Robin Griffith*

# GLANTAF A'R WE

Yn ddiweddar ffurfiwyd cysylltiad ar y we fyd-eang rhwng Ysgol Glantaf ac Ysgol Uwchradd Lyton, ysgol Maori ei hiaith yn Gisbourne, Seland Newydd. Cymerodd Glantaf ran mewn cystadleuaeth o dan nawdd y Cyngor Prydeinig i feithrin cysylltiadau rhwng Prydain a Seland Newydd. Bydd deuddeg ysgol o Brydain a deuddeg ysgol o Seland Newydd yn rhan o'r cynllun 'INTERLINK'.

Lansiwyd y cysylltiad rhwng Ysgol Glantaf ac Ysgol Lyton gan y chwaraewr rygbi Hemi Taylor sy bellach, er ei fod yn hanu o Seland Newydd, yn chwarae dros Gaerdydd a Chymru. Rhoddodd dipyn o wybodaeth cefndir i'r plant am ei wlad enedigol. Cafodd y fenter hon dipyn o sylw yn Seland Newydd a chafwyd negeseuon gan enwogion fel Inga Tuigamala a phrif-weinidogion Prydain a Seland Newydd



*Llun* Dosbarth 9:1 gyda'r athro Technoleg Gwybodaeth, Mr Hywel Marshall. Dyma'r dosbarth a gysylltodd ag Ysgol Lyton.

# NCVQ CYMRU




Yn ystod y blynyddoedd diweddar bu llawer o ad-drefnu, newid a datblygu ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Fel rhan o'r broses ddatblygu fe sefydlodd y Cyngor Cenedlaethol dros Gymwysterau Galwedigaethol (NCVQ) swyddfa ar gyfer Cymru yng Nghaerdydd. Prif swyddogaeth y swyddfa yw hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o NVQ a GNVQ yng Nghymru.

Mae tîm NCVQ Cymru yn rhoi cefnogaeth i ddatblygiadau NVQ a GNVQ trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn barod

- cyfieithwyd y manylebau ar gyfer pob GNVQ ar lefel Sylfaen, Canolraddol ac Uwch. Cafodd y rhain eu hanfon ar ddisg i amryw o ysgolion a cholegau Cymru;
- cyhoeddwyd taflenni yn Gymraeg ac yn Saesneg yn rhoi gwybodaeth i rieni a chyflogwyr am GNVQ;
- cymerwyd rhan yn y gwaith o ddarparu pecyn arweiniol Cymraeg ar gyfer y Cofnod Cenedlaethol o Gyrhaeddiad;
- deliwyd â llu o ymholiadau ynghylch NVQs trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Unedau Iaith;
- lluniwyd geirfa o dermau GNVQ er mwyn hwyluso gwaith cyfieithwyr a sicrhau cysondeb yn yr amrywiol dermau.

Bydd rhagor o ddeunyddiau eraill ar gael cyn bo hir.

Os hoffech gael copïau o gyhoeddiadau NCVQ Cymru, neu fwy o wybodaeth am ei waith, cysylltwch ag NCVQ Cymru, Uned 1 Cwrt Links, Parc Busnes Links, Llaneirwg (*St Mellons*), Caerdydd CF3 0LT. Ffôn: 01222 369393.

**Llongyfarchiadau** i Eurwen Thomas, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, ar gael ei phenodi'n swyddog marchnata gyda Splash, y cwmni ôl-gynhyrchu o Gaerdydd.

### Gwrthwynebu ysgol

Er bod tipyn o wrthwynebiad wedi bod ymhlith y trigolion lleol, mae Cyngor Sir Caerdydd yn bwriadu symud ymlaen i leoli'r ysgol Gymraeg newydd, Ysgol Pwll-coch, yn Lawrenny Avenue, Lecwydd. Ar hyn o bryd lleolir yr ysgol ar gampws Ysgol Gyfun Fitzalan.

### Cylch meithrin newydd

Agorwyd cylch meithrin newydd yng Nghanolfan Gymunedol Adamsdown yn Ebrill. Daeth Frank Hennessey, y darlledwr, i'r agoriad swyddogol. Os carech chi gael rhagor o fanylion am y cylch hwn, cysylltwch â Swyddfa Datblygu MYM yn Heol Albany, Caerdydd (rhif ffôn 485510).

# NEWYDDION YR URDD

## TRIP 'GO CARTIO' YM MHORTHCAWL

Yn ystod ail wythnos gwyliau'r Pasg, trefnwyd trip Go Cartio ar gyfer plant blynyddoedd 5 a 6. Yn ystod y prynhawn trefnwyd cystadleuaeth Grand Prix a bu Thomas Baker o ysgol Y Wern yn fuddugol. Hoffai'r Urdd ddiolch i blant ysgolion Melin Gruffydd, Pen-cae, Y Wern, Treganna, Pen-y-garth a Choed-y-gof am eu cefnogaeth.






## YSGOL RYGBI YR URDD

Am y tro cyntaf yn Ne Morgannwg trefnwyd Ysgol Rygbi ar gyfer plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yng Nghaeau Llandaf yn ystod gwyliau'r Pasg.

Cafwyd ymateb da gyda 22 o fechgyn yn mynychu'r cwrs un dydd. Y gobaith nawr fydd trefnu Ysgol Rygbi arall yn ystod hanner tymor Hydref '97.

## EISTEDDFOD YR URDD, ISLWYN '97

Pob lwc i bawb o Dde Morgannwg a fydd yn cynrychioli'r sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd mis Mai

## TRIP I CADBURY'S WORLD

Trefnwyd trip i Cadbury's World yn ystod gwyliau'r Pasg ar gyfer aelodau o'r Urdd. Dyma'r ail dro i'r Urdd fynd yno a chafwyd bws llawn plant a phrynhawn difyr iawn yn blasu amrywiol siocledau Cadbury. Nid oedd neb yn sâl ar y ffordd nôl, diolch byth !!!!



## PENWYTHNOS YN STOREY ARMS

Yn ystod penwythnos olaf gwyliau'r Pasg, trefnwyd trip i Storey Arms ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 Ysgol Gyfun Glantaf. Cafwyd tywydd gwych a llawer o hwyl wrth i'r disgyblion gael profi gweithgareddau canŵio, dringo, ab-hwylio ac ogofa.

Hoffai'r Urdd ddiolch yn fawr i'r disgyblion am eu hymddygiad cwrtais ac aeddfed yn ystod y penwythnos.



## CYNLLUN CHWARAE'R PASG

Eto yn ystod gwyliau'r ysgol trefnwyd Cynllun Chwarae ar gyfer plant dosbarth derbyn a blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 yr ysgolion Cymraeg. Erbyn hyn mae'r cynlluniau chwarae yn mynd o nerth i nerth gyda 60 o blant yn mynychu bob diwrnod am wythnos gyfan. Bu raid siomi amryw, felly cofiwch ddanfon eich ffurflenni nôl mewn da bryd ar gyfer yr haf!!

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Y Bêl Hirgron



### DYMCHWELER EF

Gwrthwynebwn i'n gryf y syniad o adeiladu stadiwm newydd gan ddymchwel yr un a dyfodd yn raddol er yr ornest ryngwladol gyntaf yn 1884. Pan gwblhawyd hwn gan mlynedd wedi'r ornest honno, yn Ebrill 1994, gennym ni yr oedd y stadiwm rygbi gorau yn y byd; yr oedd y dorf yn agos at y cae ac fe werthfawrogai'r chwaraewyr yr agosatrwydd yn fawr iawn. Ond torasai'r Alban yn 1982 y rhediad hir hwnnw o lwyddiant er 1968 ym Mhencampwriaeth Ewrop, a dirywio a wnaeth pethau trwy'r tymhorau er hynny: yn y degawd hwn collwyd 17 o'r 29 gornest gartref yn y Bencampwriaeth. Ar ôl y tymor hwn, pan drechwyd y wlad gan Iwerddon a Lloegr (saith cais yn erbyn pedwar) penderfynais innau mai da o beth fyddai ei ddymchwel. Rhaid inni rywsut neu'i gilydd newid cyfeiriad, gan anghofio'n llwyr y pymtheng mlynedd diwethaf sy'n cynnwys Coron Driphlyg 1988.

Gwaethygu y mae pethau. Mae record Iwerddon yn drybeilig o wael eleni - ildio 141 o bwyntiau, a sgorio 57 yn unig â phedwar cais a deunaw yn eu herbyn; sgoriwyd tri o'u ceisiadau ar y Maes Cenedlaethol a'r llall yng Nghaeredin. Ni ellir honni bod unrhyw fath o gynnydd i'w weld yn ein chwarae - mae ystadegau Iwerddon yn profi hynny - er y bydd rhai'n cyfeirio at yr ornest ym Mharis i geisio cyfiawnhau'r gwelliant. Ni phroffwydwn i fuddugoliaeth yn erbyn Lloegr, ond ni ddisgwyliwn y fath grasfa - dyna a oedd, onid e? Pedwar cais yn ein herbyn a phe byddai'r Saeson wedi chwarae'n dda trwy'r pedwar ugain munud, gallasai fod yn llawer, llawer gwaeth.

Felly wedi'r fuddugoliaeth glodwiw yng Nghaeredin, a sgorio un cais ar ddeg (12 yn ein herbyn) dau bwynt yn unig a enillwyd yn y pedair gornest. Rhaid llongyfarch Ffrainc ar ennill eu pumed Gamp Lawn â phedwar cais ar ddeg yn erbyn chwech. Nhw heb amheuaeth yw gwlad gryfaf Ewrop.

Cyn gornest Lloegr, bwriedais fynd i'r stadiwm fore Sul i synfyfyrio am hanner awr cyn i'r dymchwel ddechrau, ond ar ôl colli newidiais fy meddwl. Ni allwn ei wynebu ar ôl yr hyn a ddigwyddasai'r diwrnod cynt; ond gwahoddwyd gohebwyr y gweisg yno i wylio arwyddo'r cytundebau a chlywed barn yr Undeb a'r noddwyr, ac wedyn i ymweld ag Eisteddle'r Gorllewin yn sŵn y peiriannau'n tynnu'r seddau. Derbyniais y gwahoddiad, ac felly cefais ychydig o amser i syllu ar y tyweirch yr oedd glewion y genedl wedi rhedeg arnynt - rhyfeddu, tristáu a hiraethu.

Gadewais y lle gan wybod imi weld diwedd cyfnod arbennig nas gwelir eto yn ein hanes.

## Y Bêl Gron

Dros y blynyddoedd mi fu cryn feirniadaeth ar Glwb Pêl-droed Caerdydd a hynny gan amlaf yn haeddiannol. Ond efallai o'r diwedd fod pethau ar fin newid i lawer ar Barc Ninian. Gyda Chwmni Celtic Leisure yn buddsoddi swm sylweddol yn y coffrau, mi fu newid agwedd o fewn y clwb bellach. Mae'r hyder i'w weld ar y cae gyda bechgyn Kenny Hibbitt yn dangos digon o gryfder yn enwedig oddi cartref wrth frwydro am ganlyniadau da. Nid yw bob tro yn braf i'w wylio ond mae'n dod â llwyddiant cymharol.



Mae'r clwb o'r diwedd yn dechrau cael gafael ar dalent leol. Pan gyhoeddwyd carfan dan un ar hugain Cymru i wynebu Gwlad Belg yn Abertawe, roedd pump yn dod o Gaerdydd, ac mae sawl un fel Lee Jarman, Scott Young a Simon Howarth â chyfle bendigedig yn sgîl eu talent i fod yn llwyddiannus yn eu gyrfaoedd.

Wrth gwrs, mae 'na un tîm proffesiynol arall o fewn ffiniau Caerdydd sy'n mwynhau llwyddiant ysgubol. Y Barri yw'r tîm sy'n ben ac ysgwydd yn uwch nag unrhyw glwb arall yn y Cynghrair Cenedlaethol. Unwaith eto y tymor hwn maen nhw i fod yn bencampwyr, ac mi fydd hynny'n sicrhau mwy o ddrama a llwyddiant yn Ewrop y tymor nesa. O'r diwedd mae pethau ar ei fyny i bêl-droed yng Nghaerdydd, a hen bryd hefyd.

*Ian Gwyn Hughes*

# Cymorth Cristnogol

**CYMORTH CRISTNOGOL A CHYMDEITHAS Y CYMOD**

**PENWYTHNOS I BOBL IFAINC 14-18 OED**

PONTIO'R BWLCH A CHLIRIO'R TIR

PILA PILA - GWEDDW DDU - Enwau hyfryd - effeithiau dieflig

Dewch i ddysgu ac i ymgyrchu yn erbyn ffrwydron tir

**yng Ngwersyll Tresaith**

**4-6 GORFFENNAF 1997**

Cost £25.00

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Elenid Jones, Cymorth Cristnogol, 27 Heol yr Eglwys,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2DX.

Mae INDIA yn dathlu hannercanmlwyddiant ei hannibyniaeth eleni a'r is-gyfandir fydd ffocws Wythnos Cymorth Cristnogol y mis Mai hwn. Rhwng 11-19 Mai fe fydd pob math o ddigwyddiadau codi arian a chodi ymwybyddiaeth yng Nghaerdydd. Bydd pobl yn mynd o dŷ i dŷ i gasglu ac y mae deunydd ar gael am ddim ar gyfer paratoi gwasanaethau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir eu cael ynghyd â phosteri lliwgar, sydd hefyd am ddim, oddi wrth Swyddfa Cymorth Cristnogol, 27 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2 DX (ffôn: 891803).

Os ydych yn awyddus i'n helpu, croeso i chi gysylltu â ni yn y cyfeiriad uchod.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

*Ar ôl llwyddiant mawr y Noson i'r Teulu gyntaf ym mis Ebrill, rwy'n falch i ddweud bydd noson arall yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Bydd y noson yn rhan o Wythnos Hyrwyddo'r Gymraeg. Dylai'r wythnos hon fod yn un gyffrous a hwb mawr i Gymreictod Caerdydd a'r Fro. Mae'r nifer o bobl sy'n siarad a dysgu Cymraeg yn ein hardal yn cynyddu trwy'r amser, felly ewch i'r digwyddiadau hyn a dod yn rhan o fwrlwm Cymraeg Caerdydd a'r Fro! Os hoffech helpu gyda'r gwaith, ffoniwch fi ar (01222) 486469.*

## MENTER IAITH CAERDYDD

Rwy'n siwr eich bod chi wedi clywed am gyrff fel Menter Taf-Elái a Menter Cwm Gwendraeth. Erbyn hyn mae Menter Iaith Caerdydd gyda ni! Bydd y Fenter yn trefnu gweithgareddau Cymraeg ar gyfer pobl o bob oedran. Heb os, mae dechrau'r Fenter yn un o'r datblygiadau mwyaf pwysig a chyffrous yn yr ardal ers blynyddoedd. Cofiwch fod rôl bwysig gan ddysgwyr yr ardal yng ngwaith y Fenter, felly os hoffech helpu neu gynnig syniadau, cysylltwch â Richard Lewis ar (01222) 390980.

## CWRS HAF

Dyma'ch cyfle i fwynhau wythnos Gymraeg yng nghanol Caerdydd cyn gwyliau'r haf, sef dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener, 30 Mehefin - 4 Gorffennaf.

Bydd gwersi, siaradwyr, cwis, cyfle i weld ffilm Gymraeg ac ar y dydd Mercher taith mewn bws i Orllewin Cymru. Am ragor o fanylion cysylltwch â Helen Prosser, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion ar (01222) 390980.

Caiff un o benseiri Caerdydd, sef Arnot Hughes o gwmni Lauray Cyf., sylw mewn llyfr i ddysgwyr sydd newydd ei gyhoeddi gan wasg y Lolfa yn y gyfres 'Hwylio 'Mlaen'. Yn *Cymry Wrth Eu Gwaith* gan Elin Meek, dilynir wythnos ym mywyd Arnot Hughes, a sôn hefyd am ei yrfa yn gyffredinol a'i syniadau am bensaernïaeth gyfoes

## WYTHNOS HYRWYDDO'R GYMRAEG 23-38 Mehefin.

Ymunwch â rhai o weithgareddau'r wythnos gyffrous hon:

**DYDD LLUN 23 Mehefin**
Lansiad yr wythnos yn y Maerdy, Heol Richmond, Caerdydd.

**DYDD MAWRTH 24 Mehefin**
Sesiwn i Blant/Hyrwyddo'r Gymraeg i Rieni gyda Martin Geraint. Coleg Glan Hafren , Y Parêd , Caerdydd.
(Andrew Currie 01222 250439)

**DYDD MERCHER 25 Mehefin**
Taith gyda'r nos i Langynwyd a phryd o fwyd mewn tafarn.
(Gareth Kiff 01222 486469)

**DYDD GWENER 27 Mehefin**

**Caerdydd**
Noson Wobrwyo i'r holl ddysgwyr sydd wedi llwyddo yn eu hasesiadau OCN. Pryd bys a bawd ac adloniant. Neuadd y Sir Caerdydd.

**Y Barri**
Noson Wobrwyo a Barbeciw. Canolfan Gymunedol Palmerston.

**DYDD SADWRN 28 Mehefin**
Noson i'r Teulu 6-10pm Canolfan Hamdden Tyllgoed, Caerdydd.

***Am fanylion llawn am yr wythnos ffoniwch GILL STEPHEN, Coleg Glan Hafren ar (01222) 250439.***

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** 9.15pm | Siawns i gael peint, neu sudd oren os ydych chi'n gyrru, a siarad llawer o Gymraeg! Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*) Heol y Plwca (*City Road*) |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Palmerston Centre Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Siawns i sgwrsio, yn lolfa'r 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (*The Hayes*), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Rhun 01222 665455. |
| **Dydd Mawrth 17/6/97** | Clwb SIAWNS AM SGWRS rhwng 1.00-2.00pm Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Ffordd y Parc, Caerdydd. Ffoniwch Helen 01222 390980 |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd. Cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |

Am fanylion pellach ynglŷn â chyrsiau Cymraeg cysylltwch â GILL STEPHEN Tiwtor-Drefnydd Consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro yng Ngholeg Glan Hafren, Y Parêd, Caerdydd (01222) 250439

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn un o 11 ardal yng Nghymru a Lloegr a ddynodwyd oherwydd ansawdd arbennig y dirwedd. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sefydlu tîm cyfathrebu newydd, a gwahoddir ceisiadau am y swydd ganlynol fel arweinydd y tîm.

**SWYDDOG CYFATHREBU** (swydd NPA 29)

Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu gwaith cysylltiadau corfforaethol yr Awdurdod yn y swyddogaeth ddiddorol ac amrywiol hon. Fel person sy'n medru cyfathrebu'n hyderus yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac yn ôl pob tebyg yn meddu ar gefndir fel newyddiadurwr neu yn y cyfryngau, byddwch hefyd yn gallu cynhyrchu deunydd ysgrifenedig o safon, yn gyflym ac yn effeithiol, ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. Bydd dawn, cymhelliant, sgiliau trefnu a chyflwyno a sgiliau rhyngbersonol cadarn, ynghyd â ffordd aeddfed, ymroddedig o weithio, yn nodweddion hanfodol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Fodd bynnag, os nad yw deiliad y swydd yn rhugl wrth gael ei b/phenodi, mae'n rhaid iddo/iddi fod yn rhugl o fewn 2 flynedd, a bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo gyda hyfforddiant.

**Cyflog : Rhwng £20,000 a £24,000** yn ôl cymwysterau a phrofiad.

Mae pecyn gwybodaeth ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r swydd hon ar gael oddi wrth :

**Trevor Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Cynnal**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Lôn Winch, Hwlffordd SA61 1PY**
**Ffôn: 01437 764636**
**Neu http://www.pembrokeshirecoast.org**

Mae'n rhaid i geisiadau gyrraedd erbyn 12/6/97 fan bellaf

*Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyflogydd cyfle cyfartal*

---

PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES

**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Busnes i'r Diwydiant Cyfryngau***

***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***

(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)

***Gwasanaethau Busnes***

***Gwasanaethau a Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch: Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**

---

**CLERC DWYIEITHOG**

Mae eisiau clerc gan Gorff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Bro Eirwg, Tredelerch, Caerdydd. Fel arfer, mae'r corff yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn. Fe delir cyflog yn gyfesur â £100 y tymor. Dylid gwneud ymholiadau drwy ffonio'r prifathro: Mr. Glyn Evans, 777124 (oriau ysgol).

---

Reflexology

# ADWEITHEG

**TYNDRA? TENSIWN?**
**POENAU CEFN?**
**PROBLEM IECHYD?**

Gall tylino'r traed hybu'r corff i iachau ac ymlacio

**Jeni Vaughan-Owen**

Adweithegydd

D.D.S.R.

CLINIG IECHYD NATURIOL,

**98 FFORDD GADEIRLAN, CAERDYDD**

**Ffôn: 01222 222221 / 01443 775647**

**Ffôn Symudol: 0421 427254**

Traed iach = Corff iach

---

## Gwersi Ffrangeg a Sbaeneg

gan Athrawes Raddedig a Brwdfrydig.
Dysgir hyd at TGAU neu Lefel 'A'.
Croeso hefyd i ddechreuwyr.
Cysylltwch â Lowri Williams:

**Ffôn: (01222) 465580**

---

## Eleanor Jones

Gwasanaeth Cyfrifon a Threth Incwm
yn cynnig help gyda

**HUNAN ASESU**
**CADW CYFRIFON**
**PARATOI CYFRIFON**
**LLENWI FFURFLENNI TRETH INCWM**
**TALU WRTH ENNILL**

Ffoniwch:

**01222 - 561906**

---

**DYWEDDIAD**

**Llongyfarchiadau** i Catherine Horn, Garstang, Caerhirfryn ar ei dyweddiad â Melfyn Wyn Hopkins, mab Gwyn a Gwenda Hopkins, Llanisien. Mae'r ddau deulu yn falch dros ben. Bu Melfyn yn ddisgybl yn Ysgol Bryn Taf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llanhari ac yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd. Mae ar hyn o bryd yn dysgu yn Ysgol Lansdowne, Treganna, Caerdydd.

CBAC WJEC

# SIOP LYFRAU

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON 'UWCH'
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS + PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00am - 5.00pm**

245 Rhodfa'r Gorllewin Llandaf CAERDYDD CF5 2YX
☎ (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
☎ (01222) 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
FFACS: (01222) 575987

the VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CYNGOR BRO MORGANNWG
DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

## YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNLLUN IAITH GYMRAEG DRAFFT

(21AIN EBRILL - 13EG MEHEFIN 1997)

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y mae'n bwriadu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'n gwahodd sylwadau arno gan "aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y Cynllun effeithio arnynt" yn unol ag Adran 13 y Ddeddf.

Gellir cael copiau o'r Cynllun drafft yn ddi-dâl trwy gysylltu â

Sian Parry Jones
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton
Y Barri, CF63 4RU
Ffon: (01446) 709373

Bydd copiau hefyd ar gael i'w hastudio ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yng Nghroes Cwrlwys, Gwenfo a Swyddfa'r Dociau ynghyd â swyddfeydd y Cyngor ym Mhenarth, Llanilltud Fawr a'r Bontfaen. Dylid anfon sylwadau at Sian Parry Jones (cyfeiriad uchod) erbyn 13eg Mehefin, 1997.
Ar sail y sylwadau, bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno gyda'r cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth.

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
## Pembrokeshire Coast National Park

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn un o 11 ardal yng Nghymru a Lloegr a ddynodwyd oherwydd ansawdd arbennig y dirwedd. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sefydlu tîm cyfathrebu newydd, a gwahoddir ceisiadau am y swydd ganlynol fel arweinydd y tîm.

**SWYDDOG CYFATHREBU** **(swydd NPA 29)**

Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu gwaith cysylltiadau corfforaethol yr Awdurdod yn y swyddogaeth ddiddorol ac amrywiol hon. Fel person sy'n medru cyfathrebu'n hyderus yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac yn ôl pob tebyg yn meddu ar gefndir fel newyddiadurwr neu yn y cyfryngau, byddwch hefyd yn gallu cynhyrchu deunydd ysgrifenedig o safon, yn gyflym ac yn effeithiol, ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. Bydd dawn, cymhelliant, sgiliau trefnu a chyflwyno a sgiliau rhyngbersonol cadarn, ynghyd â ffordd aeddfed, ymroddedig o weithio, yn nodweddion hanfodol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Fodd bynnag, os nad yw deiliad y swydd yn rhugl wrth gael ei b/phenodi, mae'n rhaid iddo/iddi fod yn rhugl o fewn 2 flynedd, a bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo gyda hyfforddiant.

**Cyflog : Rhwng £20,000 a £24,000** yn ôl cymwysterau a phrofiad.

Mae pecyn gwybodaeth ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r swydd hon ar gael oddi wrth :

**Trevor Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Cynnal**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Lôn Winch,.Hwlffordd SA61 1PY**
**Ffôn: 01437 764636**
**Neu http://www.pembrokeshirecoast.org**

Mae'n rhaid i geisiadau gyrraedd erbyn 12/6/97 fan bellaf

*Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyflogydd cyfle cyfartal*

matinée cyf

Dewch i weld

| | |
|---|---|
| **Roy Noble** | **Margaret Williams** |
| **William Thomas** | **Gillian Elisa** |
| **Gareth Lewis** | **Huw Davies** |

yn recordio eu

# SEFYLLFA GOMEDI

newydd yn stiwdio deledu ENFYS, Caerdydd

bob Nos Iau,

Mai 8fed hyd Mehefin 19eg.

Ffoniwch **01222 460226**

Tocyn Unigol / Teulu / Criw

yn rhad ac am ddim